CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 4 TACHWEDD 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W R Owen

Cynghorwyr
I C Thomas, H W Roberts, A W Bohana, M W Thomas, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, K Williams, W L Davies

Siaradwr Gwadd : Helen Gwyn - Gefeillio + DVD

Dangoswyd werth 15 munud o'r DVD oedd yn tynnu sylw i bwysigrwydd pobl lleol a criw Landerneau am y Gefeillio gan nodi bod 20 mlynedd llwyddiannus tu hwnt wedi mynd heibio.

Yna cyflwynodd Helen Gwyn (cadeirydd y pwyllgor lleol) sylwadau personol am hanes y Gefeillio , a pa mor braf oedd y ffaith bod nifer o Feiri wedi mynd draw ar y teithiau , rhai ynghlwm ar elfen chwaraeon a diolchodd i'r Cyng E Lovgreen am ei holl waith yn cydlynu . I orffen cyflwynodd anrhegion o'r ymweliad i Landerneau eleni i'r Maer ynghyd a chytundeb i ddathlu'r 20 mlynedd diwethaf a bod pawb yn edrych ymlaen i hynny barhau .

1. **Ymddiheuriadau**

G Thomas, C Williams , W T Owen, B Owen, H Edwards, A Hopcyn

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Dim

3. **Datgan Buddiant Personol**

Neb

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 21 Hydref 2014
Penderfyniad
Derbyn fel rhai cywir

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio
Penderfyniad

1. C124/1014/14/DA **Cytuno**
Cais am ddiwygiadau ansylweddol ar gyfer codi estyniadau a ganiatawyd o dan gais rhif C14/0587/14/LL/

Dolawen, Penygarth, Caernarfon

---

2. C14/1012/14/LL **Cytuno**
Gosod uned llosgi biomas i gynnwys simdde, peiriant rhwygo a byncer

Welcome Furniture/ Ystad Ddiwydiannol Cibyn Caernarfon

****

3. C14/1008/14/LL **Cytuno**
Addasu'r fflat breswyl uwchben y siop trin gwallt i 2 fflat breswyl

Salon Gwallt G & G Hairdresser
46 Stryd y Llyn Caernarfon

****

4. C14/1020/14/HY **Cytuno**
Codi arwydd heb ei oleuo

Post Office, Castle Square, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfyniad
Derbyn a'u talu

8. Cysoni cyfrifon
Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth

9. Ymateb Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Pâr: Trosglwyddo asedau
Teimlad oedd y dylai bod gan Cyngor Gwynedd ryw fath o syniad bellach o'r pethau mae nhw yn meddwl trosglwyddo ac angen rhestr cyflawn efo'i gilydd er mwyn cynnal trafodaethau amserol
Penderfyniad
Danfon llythyr arall

10. Lythyr Aled Roberts AC

Pâr: Terfynau cyflymder
Siomedig bod na ddim ymgynghoriad swyddogol wedi bod yn y sector
Penderfyniad
Anfon llythyr i Edwina Hart , Cyngor Gwynedd a copi i Aled Roberts gan bod na ddim ymgynghoriad swyddogol wedi bod

11. Siocledi Nadolig
Penderfyniad
£50 i bob Cartref henoed a bocs bisgedi i bob ward yn Ysbyty Eryri a chanolfan dydd Maesincla. Parhau i roi selection boxes i plant Pendalar a Cartref Bontnewydd a £25 i Gisda

12. Llythyr Comrades

Pâr: Bwffe yn dilyn Sul y Cofio
Penderfyniad
Cyfrannu £150

13. **Copi o'r gwybodaeth o gyfarfod Datblygu'r fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd –** Diolch i'r Cyng. W.T. Owen
Penderfyniad
Diolch i Cyng W T Owen am ddod ar gwybodaeth yn nol

14.Cyngor Gwynedd–

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros Mannau Parcio ar y stryd (Rhes Priordy) Caernarfon 2014
Penderfyniad
Cefnogi

15.Cyngor Gwynedd

Ymateb Biniau Ysbwriel
Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth

16. Cofnodion Pâr: Cofnodion Prosiect Dyffryn Cadnant
Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth a'r sawl sydd heb ymateb i'r clerc i wneud ar gyfer y 16fed

17. Y Sgrin Fawr
Penderfyniad
Parhau i gael o am ddau ddiwrnod

18. Adroddiad o Gynhadledd Blynyddol Unllais Cymru
Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth a diolch am yr adroddiad

19.Cwestiynau

Ydi'r Cyngor yn dymuno cael cyfarfod ar y cyd efo Cynghorwyr Felinheli?
Ydi

Ydi'r Cynghorwyr yn dymuno mynd allan am ginio Nadolig yn dilyn y Cyngor Mis Rhagfyr? Enwau i'r clerc

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....